# Clwstwr Busnes Effaith Uchel

Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales





Mae'r Clwstwr Busnes Effaith Uchel wedi'i lansio fel rhan o raglen datblygu clystyrau Llywodraeth Cymru. Yn ôl yr Athro Michael E. Porter o Ysgol Fusnes Harvard: "Clwstwr o gwmnïau a sefydliadau annibynnol wedi'u cysylltu'n anffurfiol sy'n cynrychioli ffurf sefydliadol cadarn sy'n cynnig manteision o ran effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a hyblygrwydd". Mae'n siŵr mai Dyffryn Silicon yng Nghaliffornia yw'r enghraifft fwyaf llwyddiannus o glwstwr diwydiant.

## Amcan y Clwstwr Busnes Effaith Uchel

Amcanion allweddol y clwstwr yw helpu busnesau i sicrhau twf cyflymach mewn gwerthiant, elw a niferoedd staff. Mae'r clwstwr yn uchelgeisiol, a'r nod yw sicrhau twf sylweddol ar unwaith yn hytrach na thyfu'n raddol bach.

## Pa gwmnïau ddylai ystyried ymuno a'r Clwstwr Busnes Effaith Uchel

Bydd y clwstwr hwn yn apelio i gwmnïau uchelgeisiol sy'n awyddus i dyfu'n gyflym iawn. Gall cyfuniad o ffactorau fod wrth wraidd y twf hwn, yn cynnwys arloesedd, sianeli gwerthiant newydd a datblygu cynhyrchion newydd, a gallai'r clwstwr fod o gymorth gyda phob un o'r rhain.

## Manteision ymuno a'r Clwstwr Busnes Effaith uchel

Bydd cwmnïau'n elwa ar allu cydweithio a chwmnïau eraill ac ar y cymorth a roddir gan y Ganolfan Diwydiant Bwyd a Llywodraeth Cymru. Bydd modd cydweithio mewn sawl ffordd yn cynnwys:

- Rhannu adnoddau (ee: offer)
- Mentrau gwerthu ar y cyd (ee: cydweithredu i fanteisio ar farchnad allforio newydd)
- Mynediad at wybodaeth am y farchnad (ee: ymchwil i'r farchnad)
- Mynediad at wybodaeth y clwstwr (ee: arbenigedd y Ganolfan Diwydiant Bwyd).

## Y Ganolfan Diwydiant Bwyd ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd

Saif y Ganolfan ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd ac mae wedi gweithio gyda channoedd o gwmnïau bwyd a diod. Mae'r Ganolfan yn gallu elwa ar arbenigedd mewn pynciau o bob math sy'n cynnwys cyfraith bwyd, gwerthuso synhwyraidd, microbioleg, maeth, dieteteg, gwyddor fiofeddygo seicoleg, iechyd yr amgylchedd, cemeg bwyd, safonau masnach, arlwyo, lletygarwch ac effaith amgylcheddol. Law yn llaw a hyn, mae'r Ganolfan yn cynnig arbenigedd yn yr ochr fusnes hefyd, fel tueddiadau bwyd, ymddygiad defnyddwyr, dadansoddi'r farchnad, adolygiadau allforio, effeithlonrwydd prosesu, gofynion llafur, sgiliau ac addysg.

Bydd y Ganolfan yn cynnig cymorth ymarferol, yn cyflwyno darparwyr gwybodaeth eraill i'r clwstwr ac yn hwyluso gweithgareddau o fewn y clwstwr.

## Prosiectau Posibl ar gyfer y Clwstwr

Mae'r Clwstwr Busnes Effaith Uchel yn newydd ac mae wrthi'n datblygu ei brosiectau a'i flaenoriaethau. Gallai prosiectau cychwynnol gynnwys

- Ymestyn oes silff cynhyrchion
- Ysgogi twf mewn rhanbarth(au) daearyddol
- Ysgogi twf mewn categorïau cynhyrchion penodol
- Cynyddu gwerth yn y gadwyn gyflenwi.

Dyma'r amser delfrydol i gwmnïau uchelgeisiol ymuno a'r clwstwr gan y bydd cyfle i gyfrannu'n weithredol a dylanwadu ar flaenoriaethau'r clwstwr.

Os hoffech wybod mwy am sut gallai'r Clwstwr Busnes Effaith uchel fod o fudd i'ch busnes chi, cysylltwch a Martin Sutherland yn y Ganolfan Diwydiant Bwyd, Prifysgol Metropolitan caerdydd:

msutherland@cardiffmet.ac.uk
029 2041 6228

llyw.cymru/bwydadiodcymru
@BwydaDiodCymru

© Hawlfraint y Goron 2016 / WG29250 OGL